



# Caffael

## Gwybodaeth a chanllawiau i gyflenwyr

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 January 2025

Diweddariad olaf: 21 February 2025

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/beth-rydym-yn-ei-wneud/caffael am y fersiwn diweddaraf.

# Ein dull o gaffael

Rydyn ni’n prynu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau. Mae’r gwariant yn amrywio o symiau mawr i brosiectau bach iawn. Rydyn ni’n ceisio cael gwerth am arian. Mae hyn yn golygu cydbwyso ansawdd, costau a gwerth cymdeithasol dros oes y gwariant.

Rydyn ni’n hoffi gweithio gyda’n cyflenwyr:

- mewn ffordd agored ag onest
- gyda disgwyliadau ac amcanion clir
- gyda safonau clir i bawb.

# Ein proses gaffael

Mae’r math, gwerth a chymhlethdod cytundeb yn ein helpu i benderfynu ar y broses dendr. Rydyn ni’n rhoi’r wybodaeth angenrheidiol i gyd ar gyfer y broses gaffael. Wedyn rydyn ni’n rhoi digon o amser i gyflenwyr baratoi eu cais.

Ar gyfer cytundebau o werth mawr neu rai cymhleth, rydyn ni’n annog cyflenwyr i weithio mewn partneriaeth. Mae ceisiadau ar y cyd yn helpu cyflenwyr i fod yn fwy llwyddiannus wrth ennill gwaith.

Lle’n bosibl, rydyn ni eisiau gweithio gyda busnesau bach a chanolig lleol a chyflenwyr o Gymru. Rydyn ni’n gobeithio y bydd hyn yn hybu busnes lleol,

datblygu sgiliau, a dod â buddion cymunedol eraill.

## Sut rydyn ni’n prynu

Wrth gaffael cytundebau, bydd y broses yn dibynnu ar y gwerth.

Gwerth cytundeb amcangyfrifed (gan gynnwys TAW) ac ein dull:

- hyd at £3,000 – angen un dyfynbris
- £3,001 i £5,000 – angen dau ddyfynbris
- £5,001 i £29,000 – angen tri dyfynbris
- £30,000 i £139,688 – tendr ffurfiol drwy GwerthwchiGymru/y Fframwaith
- £139,688 ac uwch – tendr ffurfiol drwy’r Central Digital Platform (CDP) ar GwerthwchiGymru.

## Gweithio gyda ni

Rydyn ni’n croesawu ceisiadau gan bob darparwr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, a busnesau lleol.

Rydyn ni’n gweithredu o dan arweiniad **Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024** ac yn cadw at **Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)**. Hefyd, rydyn ni’n cydymffurfio â **Deddf Caffael y DU-gyfan 2023**, a ddaeth i rym ar 24 Chwefror 2025.

Yn unol â'r rheoliadau hyn, mae pob cyfle cytundeb gwerth £30,000 neu fwy (gan gynnwys TAW) yn cael eu hysbysebu ar blatfform GwerthwchiGymru.

## Cofrestr o gytundebau

Dilynwch y ddolen hon i weld ein cofrestr o gytundebau, sy’n dangos crynodeb o’n holl gytundebau byw.

> Cofrestr o gytundebau
>
> Crynodeb o'n holl gytundebau fyw.
>
> Dolen